OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2007 Rhif 1039 (Cy.99)

Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd a Thaliadau Optegol) (Diwygio) (Cymru) 2007

Wedi'u gwneud	- -	*27 Mawrth 2007*
Yn dod i rym	- -	*29 Mawrth 2007*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 71, 128, 129, 203(9) a (10) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(**1**).

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd a Thaliadau Optegol) (Diwygio) (Cymru) 2007 a deuant i rym ar 29 Mawrth 2007.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

Diwygio rheoliad 1 o Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd a Thaliadau Optegol) 1997

2. Yn y diffiniad o "NHS sight test fee" yn rheoliad 1(2) o Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd a Thaliadau Optegol) 1997(**2**)—

(a) yn lle "£50.77" rhodder "£52.04"; a

(b) yn lle "£18.39" rhodder "£18.85";

(**1**) 2006 p.42.
(**2**) O.S. 1997/818 fel y'i diwygiwyd.